Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Garndolbenmaen

## **Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Garndolbenmaen yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n meithrin lles ac yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth newydd yn arwain yr ysgol yn effeithiol, ac yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, wedi llwyddo i greu perthynas waith agos rhwng yr holl randdeiliaid. Mae'n gosod disgwyliadau uchel ohoni ei hun ac mae ei hymrwymiad a'i brwdfrydedd wedi sicrhau bod yr ysgol yn gwneud camau da tuag at gwrdd â'u blaenoriaethau. Mae'r berthynas agos sy'n bodoli rhwng y staff a'r rhieni yn cyfrannu'n effeithiol at falchder y disgyblion at eu cymdeithas a'u hymdeimlad cryf o berthyn i'r gymuned leol. Mae'r ymdeimlad o fod yn perthyn i un teulu mawr yn elfen gref o'r ysgol hon.

Mae staff yn adnabod anghenion lles y disgyblion yn dda iawn. Maent yn cynnig cyfleoedd parhaus i ddisgyblion drafod eu teimladau a rhannu eu hemosiynau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hunanhyder a'u parodrwydd i gymryd risg. Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau cyffrous a diddorol sy'n ysgogi brwdfrydedd a chwilfrydedd disgyblion tuag at eu gweithgareddau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau, yn enwedig eu medrau datrys problemau a digidol. Mae athrawon yn gwrando'n dda ar farn a sylwadau'r disgyblion a chyfraniadau rhieni i gynllunio cwricwlwm sy'n cefnogi'r disgyblon i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad cyflawn bron bob disgybl.

Mae'r athrawon yn dechrau defnyddio canfyddiadau asesu i gynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygiad pellach disgyblion. Maent yn cywain gwybodaeth gychwynnol o nifer gynyddol o ffynonellau. Er hynny, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon miniog i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Nodwedd gref o'r ysgol yw'r parch a'r cwrteisi sydd gan y disgyblion at ei gilydd ac oedolion. Mae llawer yn dangos balchder heintus at eu gwaith ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dealltwriaeth o'r ardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau bod yr adborth i ddisgyblion, a'r wybodaeth a ddaw wrth asesu ac olrhain eu cynnydd, yn cael gwell effaith ar y camau nesaf yn eu dysgu**

**A2** **Sicrhau lefel briodol o her mewn gweithgareddau dysgu'r disgyblion**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Garndolbenmaen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 21 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 19 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 2 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 28.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 63.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 16/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.